# Trosolwg o'r Wers: Dewis Kiddo

| | | |
|---|---|---|
| **Llinyn** | Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned | Hyd y Wers:<br>Amrywiol hyd at 60 munud, trwy gytundeb staff y ganolfan, yn ddibynnol ar p'un a gaiff y wers ei chyflwyno'n gyfan, neu mewn rhannau ac ar sut y mae'r disgyblion yn ymateb |
| **Cyfnod Allweddol** | CA3 | |
| **Enw'r wers** | Dewis Kiddo | |

## NOD

- Deall beth fydd yn digwydd i mi, fy nheulu, fy ffrindiau a'm cymuned (ysgol a chymdogion) os byddaf yn ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol neu'n cyflawni trosedd.

## FFRAMWAITH ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL 2008

- I ddefnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith. S (DM)
- I ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol. S (DM)
- I fynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol. S (DC)
- I fod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion. S (GGE)
- I ddeall agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc. Y (DW)
- I ddeall y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd. Y (DMY)

## LLYTHRENNEDD AR DRAWS Y CWRICWLWM

Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r fframwaith rhifedd/llythrennedd:

- Siarad Ll(Ll)s
- Gwrando Ll(Ll)g
- Cydweithio a thrafod Ll(Ll)c&th
- Darllen a Deall Ll(D)d&d

## AMCANION Y WERS

- Dangos gofal a rhoi ystyriaeth i eraill a'u heiddo a bod yn sensitif i'w teimladau.
- Deall y gwahaniaeth rhwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd.

## GEIRIAU ALLWEDDOL

cymuned, pwysau cyfoedion, Ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) , Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (GYGG), trosedd, dioddefwr, canlyniad.

## ADNODDAU

- Amserydd; 'gwobr' hyrwyddol ar gyfer y gweithgaredd Canfod Gair;
- Geiriau Allweddol A4
- Gasgliad arddangos a chasgliad grŵp o luniau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lleol (torri ar gyfer gweithgaredd Naw Diemwnt);
- A3 diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- A4 copïau arddangos 'still' a chopïau 'still' i'r grŵp (A5)
- DVD Dewis Kiddo
- A4 portreadau wedi eu henwi o'r prif gymeriadau
- Cyflwyniad PowerPoint, neu copïau A3 o'r sleidiau
- Copïau arddangos A3 o weithdrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol e.e. tri trawiad;
- 15 Cytundeb Ymddygiad Derbyniol A4
- Copïau A4 dwyochrog (i bob disgybl) o doriadau/penawdau o bapurau lleol a ffotograffau (cwestiynau ar y cefn: Os mai chi fyddai hwn, sut y byddech chi/ eich teulu/ eich ffrindiau/ eich cymuned (ysgol a chymdogion yn teimlo?)

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Gweithgaredd cynhesu dewisol.
- Sicrhau fod y cysylltiad â'r wers flaenorol yn cael ei esbonio.
- Cytuno ar y Rheolau Aur.
- Amlinellu'n glir cytundeb y dosbarth ynglŷn â chyfrinachedd.
- Esbonio ac arddangos yr amcanion a'r geiriau allweddol.
- Gweithgaredd rhagarweiniol: Canfod Gair

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Gweithgaredd cychwynnol: sefydlu dealltwriaeth y grŵp o ymddygiad gwrthgymdeithasol/derbyniol.
- Cyflwyno diffiniad o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cyflwyno a dangos DVD Dewis Kiddo (1/2 awr).
- Arddangosiad dosbarth cyfan a gweithgaredd grŵp: Naw Diemwnt / Dosbarthu gan ddefnyddio lluniau Kiddo,
- Beth sy'n digwydd nesaf? Amlinellu ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol e.e. gweithdrefn tri trawiad a chefnogaeth ar gael gan asiantaethau megis Tîm Troseddu Ieuenctid,
- Trafod Cytundebau Ymddygiad Derbyniol gan ddefnyddio enghreifftiau gwag,
- Trafod Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan ddefnyddio penawdau o'r wasg.
- Gweithgaredd Grŵp: defnyddio toriadau o'r wasg i ddangos empathi gyda dioddefwyr a theuluoedd troseddwyr,

### ADOLYGU

- Canlyniadau Dysgu (Adolygu/Dosbarth Cyfan)

### GWEITHGAREDDAU DILYNOL ATHRAWON

Gweler gwefan www.schoolbeat.org am weithgareddau dilynol ac adnoddau athrawon.